

Blog ENOC

26^{ain} o Ebrill

Ail gyfarfod criw prosiect ENOC Cymru 2019 — Dewis Thema

Nod y cyfarfod yma yn y Gwyliau Pasg oedd dewis thema ar gyfer ein prosiect.

Eleni mae Siarter Hawliau Plant y Cenhedloedd Unedig yn dathlu penblwydd yn 30. Ar ddechrau'r cyfarfod gwnaethom weithgaredd ar ffurf gêm gerdiau oedd yn gwahaniaethu rhwng *hawliau a dymuniadau* plant.

Yna rhannom yn ddau grŵp, ac edrych ar y syniadau am hawliau plant yn yr oes ddigidol a ddatblygwyd yn y cyfarfod diwethaf. O fewn ein grwpiau trafodom bwysigrwydd y syniadau yma o ran hawliau plant a phenderfynu pa rai oedd fwyaf perthnasol. Wedi i'r ddau grŵp ymuno a thrafod, penderfynom ar restr fer o chwe syniad, sef;

- Addysg ar-lein
- A.I. (*artificial intelligence*)
- Byd heb dechnoleg
- Hunan-ddelwedd ar-lein
- Y cyfryngau cymdeithasol
- Seibr-fwlio

Wedi hir drafod, pleidleisiodd dros y syniad gorau, efo hunan-ddelwedd ar-lein yn dod yn gyntaf ac A.I. yn ail agos. Y weithgaredd olaf a wnaethom yn y cyfarfod oedd creu poster i benderfynu pa rinweddau oedd yn bwysig ar gyfer gwaith fîm effeithiol.

Y bwriad ar gyfer y cyfarfod nesaf fydd penderfynu sut rydym am gyflwyno'r prosiect, a pha agweddau o'r thema rydym am ffocysu arnynt.

17^{eg} o Fai

Trydydd cyfarfod criw prosiect ENOC Cymru 2019 — Effaith Cyfryngau Cymdeithasol

Yn y cyfarfod yma fe drafodom ni effaith y cyfryngau cymdeithasol ar fywydau plant a phobl ifanc.

Wedi penderfynu ein bod am ffocysu ar y cyfryngau cymdeithasol o fewn ein thema o hunan-ddelwedd ar-lein, i ddechrau'r cyfarfod fe wnaethom weithgaredd fîm i weld pa wybodaeth gellir ei ddarganfod am bobl trwy edrych ar eu hól troed digidol. Gwelom ni faint o wybodaeth gallai dieithriaid ei weld amdanoch chi trwy edrych ar eich cyfrif ar-lein.

Ein prif weithgaredd oedd cynnal trafodaeth ar y cwestiwn "A ddylai Instagram gael gwared ar eu system 'likes'?" Roedd yn drafodaeth ddiddorol iawn, a wnaeth i ni ail-gysidro'r effaith y gall y cyfryngau cymdeithasol gael ar bobl ifanc. Rhai o'r prif ddadleuon o blaid cael gwared arnynt oedd eu bod yn effeithio iechyd meddwl a'u bod yn achosi i bobl gymharu eu hunain ag eraill yn ormodol. Ochr arall y ddadl oedd eu bod yn ffordd hwylus o ddarganfod diddordebau pobl eraill ac o rannu profiadau newydd efo ffrindiau.

Ar ddiwedd y drafodaeth roedd y mwyafrif o'r grŵp o'r farn y dylai 'likes' gael eu cadw, ond y dylid ymchwilio i mewn i'r syniad o'u cuddio fel mai dim ond y person a bostiodd y llun a allai weld pwy oedd wedi ei hoffi.

Yn y cyfarfod nesaf gobeithiwn ddechrau cyflwyno'r prosiect a dewis cynrychiolwyr yn barod ar gyfer cynhadledd Brwsel.